**ATODIAD 8**

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.

2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau perthnasol gyferbyn â'r cynlluniau unigol.

3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
   - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
   - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
   - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

   Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

4. Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

5. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).

6. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (dros £4m) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£4.34m) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol (yn cynnwys Digartrefedd, Gofal Oedolion a Gofal Plant), a bod mwyafrif y gweddill (£334k) ohono'n mynd at gludiant ysgolion ar gyfer disgyblion gydag anghenion arbennig.

Derbyniwyd cymorth gan Delyth Gadlys Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb y Cyngor, wrth i ni lenwi'r ffurflen yma.

## ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Arbedion 2020/21

### 1.2 Beth ydi pwrpas yr adroddiad sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Arbedion i gwrdd â bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu yng Nghyllideb 2020/21.
Pob Adran wedi cael targed yn wreiddiol o 0.78% o'u cyllidebau gros, oedd yn gyfanswm £2 filiwn. Wedi cael ei leihau i £1.062 miliwn yn dilyn asesiad o'r cynigion, a peidio gweithredu'r rhai allai gael effaith ar drigolion.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Bu asesiad anffurfiol cyn cyfarfod Cabinet 17/12/19. Cychwynwyd yr asesiad ffurfiol yma ar 31 Ionawr 2020.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adrannau'r Cyngor
Pobl Gwynedd
Aelodau'r Pwyllgorau Craffu a Phwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Y Cabinet
Aelodau Etholedig mewn Gweithdai Cyllideb

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

| |
|---|
| Yn ystod 2018 gwnaed ymgynghoriad o'r enw "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?" i adnabod beth oedd blaenoriaethau pobl Gwynedd ar gyfer penderfyniadau'r gyllideb ar gyfer 2019-22. Defnyddir yr ymgynghoriad yma yn weithredol am y dair blynedd.<br><br>At ddiben arbedion newydd 2020/21 yn y Gyllideb yma, cynhaliwyd trafodaethau mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, er mwyn craffu holl gynigion yr Adrannau (gwerth £2m).<br><br>Cynhaliwyd 4 Seminar Cyllideb – 1 yn Dolgellau, 1 yn Pwllheli a 2 yng Nghaernarfon i edrych ar y gyllideb gan gynnwys yr arbedion (gwerth £1.062m i'w cyflwyno am benderfyniad). |

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Roedd yr ymgynghoriad "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?" yn dangos fod y rhan fwyaf o bobl Gwynedd yn teimlo mai Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg oedd y gwasanaethau mwyaf pwysig i'w gwarchod.<br><br>Yn sgil y craffu, penderfynwyd cyfyngu'r arbedion i £1.062m, sef y cynigion na ddylai gael effaith ar drigolion (gweler adroddiad Cabinet 17 Rhagfyr 2019 sy'n cynnwys tabl gan y Prif Weithredwr sy'n graddio'r arbediad o ran effaith). |

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Cyflwynir Cyllideb 2020/21 a'r cynlluniau arbedion gerbron yng nghyd-destun Setliad Grant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol Cymru, sy'n darparu adnoddau ychwanegol digonol i gyfarch chwyddiant, ond ddim digon er mwyn cyfarch y galw ychwanegol, yn bennaf, mwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol, plant ac oedolion.<br><br>Felly, er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r pobl bregus yng Ngwynedd sy'n derbyn y gwasanaethau gofal, rhaid blaenoriaethu a sicrhau arbedion mewn meysydd gyda llai o ardrawiad.<br><br>Gwybodaeth Adrannau'r Cyngor – Mae gan yr Adrannau wybodaeth craidd o'u gwasanaethau. Maent wedi edrych yn ofalus ar eu gwaith ac wedi adnabod arbedion pellach fydd ddim yn cael effaith, neu'n cael effaith bychan, ar drigolion Gwynedd. Maent wedi gallu gwneud hyn oherwydd pethau fel newidiadau mewn technoleg, neu arferion gwell. |

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Nac oes |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Yr iaith Gymraeg** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar yr iaith Gymraeg, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Anabledd** | negyddol | Mae'r Adran Oedolion wedi adnabod y posibilrwydd o effaith, ond nid effaith sylweddol, ar y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Bydd angen i'r Adran honno sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith. |
| **Rhyw** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Oedran** | negyddol | Mae'r Adran Oedolion wedi adnabod y posibilrwydd o effaith, ond nid effaith sylweddol, ar y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.<br><br>Mae effaith, ond nid effaith sylweddol, wedi ei adnabod hefo rhai o cynigion yr Adran Addysg hefyd.<br><br>Bydd angen i'r Adrannau sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni chredir fod yr effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Posib | Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r ddyletswydd yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Posib | Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r ddyletswydd yma. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid oes effaith sylweddol bositif wedi ei adnabod o ganlyniad i weithredu arbedion, ond bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae effaith wedi ei adnabod, ond ni chredir y bydd yn sylweddol, oherwydd mai arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau sydd yma. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | X |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Bydd yr Adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| Gweler uchod. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad 3 gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllor Archwilio a Llywodraethu tair gwaith y flwyddyn. |